

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

**Dydd Mawrth 24<sup>ain</sup> Tachwedd, 2015 am 10.30am**

**Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 20fed Tachwedd 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynghlŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT:  
RHAGLEN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau ynghlŷn â'r cynnydd o ran gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac i gyflwyno ail-ddraft Cynllun Gweithredu Rhanbarthol Cwm Taf i ddibenion trafodaeth.

**3 TRECHU TLODI - ADOLYGIAD O RAGLENNI CYMUNEDAU YN GYNTAF, TEULUOEDD YN GYNTAF A DECHRAU'N DEG YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n amlinellu canfyddiadau ac argymhellion yn dilyn adolygiad strategol i agwedd y Cyngor tuag at drechu tlodi, yn benodol mewn perthynas â rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

**Tudalennau 21 - 44**

**4 MABWYSIADU DATGANIAD O EGWYDDORION 2016-2018 – DEDDF HAPCHWARAE 2005.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am newidiadau bach i'r Datganiad o Egwyddorion mewn perthynas â Deddf Hapchwarae 2005 (i adlewyrchu newidiadau yn y ddeddf yn unig).

**Tudalennau 45 - 86**

**5 ARGYMHELLION CRAFFU - PLANT A PHOBL IFAINC**

Derbyn adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau ac argymhellion y ddau weithgor craffu a gynhaliodd adolygiadau craffu mewn perthynas â materion Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Tudalennau 87 - 176**

**6 TREFNIADAU CYN-GRAFFU**

Derbyn adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau cyn-graffu i'w gweithredu mewn perthynas â Chynllun Strategol Tymor Canolig ar gyfer Gwasanaethau Hamdden yn Rhondda Cynon Taf 2015-2020 a Chynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor 2016-2020.

**Tudalennau 177 - 250**

**7 RhCT GYDA'I GILYDD – DATGANIADAU O DDIDDORDEB / CEISIADAU CRONFA ALLUOGI CYMUNEDOL.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Grŵp Llywio Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol mewn perthynas â mynd â'r maen i'r wal o ran y Datganiadau o Ddiddordeb a'r ceisiadau am gyllid Cronfa Alluogi Cymunedol.

**Tudalennau 251 - 270**

- 8 CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb o'r gyfraith a'r gofynion o ran paratoi Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd a chyflyno'r cynllun terfynol yn dilyn cyfnod ymgynghori.  
**Tudalennau 271 - 280**
- 9 BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN - RHAGLEN GYFALAF ATODOL AR GYFER Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n nodi'r blaenoriaethau o ran 'ffyrdd, Is-adeiledd a Thrafnidiaeth'.  
**Tudalennau 281 - 294**
- 10 TREFNIADAU GWEITHIO AR Y CYD - GWEITHDREFNAU AR GYFER RHEOLI SWYDDI GWAG, PENODI AC ADLEOLI.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n rhoi manylion i'r Aelodau ar ganlyniadau trafodaethau diweddar gyda Chyngor Merthyr Tydfil a'r Undebau Llafur ynghylch cydweithio ar faterion rheoli swyddi gwag, penodi ac adleoli.  
**Tudalennau 295 - 299**
- 11 HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO - ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi amlinelliad i'r Aelodau am gynnwys Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg a dderbyniwyd ar 30ain Medi 2015.  
**Tudalennau 300 - 256**
- 12 POLISI A GWEITHDREFNAU DIWYGIEDIG AR GYFER ENWI STRYDOEDD A RHIFO TAI**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu polisi a gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer Enwi Strydoedd a Rhifo Tai, sy'n cynnwys gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015.  
**Tudalennau 357 - 364**

- 13 BARGEN DDINESIG – CRYNODEB AR GYFER AELODAU**  
Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd o ran y deg Awdurdod Lleol yn Ne Ddwyrain Cymru yn paratoi a llwyddo i daro Bargen Ddinesig gyda Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Llywodraeth y DU.

**Tudalennau 365 - 404**

- 14 ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR 30<sup>ain</sup> Medi 2015 (Chwarter 2)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Aelodau am gyflawniad y Cyngor dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd (hyd at 30ain Medi 2015).

**Tudalennau 405 - 546**

- 15 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

- 16 CWMNI CYNON VALLEY DISPOSAL COMPANY LIMITED A CHWMNI AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

**Tudalennau 547 - 584**

- 17 MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**